**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD LLUN, GORFFENNAF 14fed 2014**

**MONDAY, 14th of JULY 2014**

Lleoliad / Location:

**YSTAFELL GLYDER FAWR**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**
**PENRALLT**
**CAERNARFON**

**3:00pm**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 4.7.14*

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

W.Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Huw Edwards

Elfed Williams

Eddie Dugan (wrth gefn/reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Michael Sol Owen

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM DRWYDDED EIDDO:**

   **WILLIAM HILL**<br>**25, STRYD MOCH (GAOL STREET)**<br>**PWLLHELI,**<br>**LL53 5DB**

   **Ystyried y cais uchod**<br>**(papur melyn)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Yn unol ag Adran 1 o'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu sef -

- **Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anrhefn; cael ei gysylltu â throsedd ac anrhefn; neu gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd troseddol**
- **Sicrhau fod hapchwarae yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored**
- **Gwarchod plant ac unigolion bregus eraill rhag niwed neu gael eu hymelwa drwy hapchwarae**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

In accordance with Section 1 of the Gambling Act 2005, Licensing Authorities must consider the licensing objectives, namely -

- **Preventing gambling from being the source of crime and disorder; being associated with crime and disorder; or be used to support crime**
- **Ensuring that gambling is conducted in a fair and open way**
- **Protecting children and other vulnerable persons from being harmed or from being exploited by gambling.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **14 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO BETIO (AR WAHÂN I DRACIAU) WILLIAM HILL ORGANIZATION LIMITED, 25 STRYD Y MOCH PWLLHELI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 25 Stryd Moch(Gaol Street) Pwllheli, LL53 5DB gan William Hill Organization Limited, Greenside House, 50 Station Road, Wood Green, Llundain N22 7TP.
Bwriedir datblygu Uned i'r ochr dde o hen Uned manwerthu Ethel Austin ar Stryd y Moch.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Gamblo 2005 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Yn unol ag Adran 1 o'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu sef -

- Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anrhefn; cael ei gysylltu â throsedd ac anrhefn; neu gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd troseddol
- Sicrhau fod hapchwarae yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored
- Gwarchod plant ac unigolion bregus eraill rhag niwed neu gael eu hymelwa drwy hapchwarae

Mae'n ofynnol hefyd ystyried Datganiad o Bolisi Gamblo'r Cyngor yn ogystal ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo.

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r ymgeisydd yn manylu yn llawn y mesurau a gymerir gan y cwmni i sicrhau fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu cefnogi (gweler atodiad i'r adroddiad) megis –

- Mae gan y cwmni Adran benodol er mwyn cadarnhau cydymffurfiad a'r amcanion trwyddedu sydd yn gweithio gyda Heddluoedd yn lleol
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei gynnal o safbwynt diogelwch staff a chwsmeriaid, ynghyd a defnydd o Deledu Cylch Cyfyng
- Gweithredir system monitro awdio 'Staff Safe' drwy gydol yr amser.
- Gweithredir polisïau i sicrhau nad yw plant ac oedolion bregus yn cael eu niweidio neu ymelwa oddi wrth weithgareddau hapchwarae
- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i sicrhau fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu cefnogi.
- Mae'r cwmni yn gweithredu polisi 'Think 21'
- Gweithredir polisi o 'Eithrio Gwirfoddol' lle mae'n bosib i gwsmer sydd yn cydnabod posibilrwydd eu bod yn gaeth i gamblo ; eithrio eu hunain o weithgareddau betio yn yr eiddo am 12 mis.

## YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan un o drigolion lleol Pwllheli. Mae'r ymatebydd yn Weinidog ar gyfer Gofalaeth Pwllheli ac yn datgan ei wrthwynebiad ar ran unigolion yr ofalaeth. Mae'r ymatebydd yn nodi ei fod yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae bywydau teuluoedd ac unigolion bregus wedi cael eu heffeithio oherwydd problemau gamblo.

Gweler manylion llawn yr e bost a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Gamblo 2005, a Datganiad o Bolisi Gamblo'r Cyngor.